OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1819 (Cy. 228)

DIOGELU'R ARFORDIR, CYMRU
DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU
RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD, CYMRU

Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012

Gwnaed - - - - 10 Gorffennaf 2012

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)

Mae Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â dynodi adeileddau neu nodweddion yng Nghymru a chan arfer y pwerau a roddir gan adrannau 30 a 48(2) o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010(**1**) a pharagraff 15 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â pharagraff 15(5) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

Ymgynghorwyd â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, ac y mae'r Cyngor hwnnw wedi ymgynghori â Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol ag adran 44 o Ddeddf y Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007(**2**) a pharagraff 24 o Atodlen 7 iddi.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012, a deuant i rym ar y diwrnod sy'n dilyn y dyddiad y'u gwnaed.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran dynodi adeileddau neu nodweddion yng Nghymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Atodlen 1" ("*Schedule 1*") yw Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010;

ystyr "hysbysiad gorfodi" ("*enforcement notice*") yw hysbysiad gorfodi a roddir o dan baragraff 11 o Atodlen 1; ac

(**1**) 2010 p.29. Mae paragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn rhoi pwerau i "the Minister", a diffinnir "the Minister" at ddibenion yr Atodlen honno ym mharagraff 17 o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 2007 p.15.

ystyr "penderfyniad cydsynio" ("*consent decision*") yw penderfyniad mewn cysylltiad â chydsynio, ar gais o dan baragraff 6 o Atodlen 1.

Hawl i apelio yn erbyn dynodiad

3.—(1) Caiff perchennog(**3**) y rhoddir hysbysiad iddo o dan baragraff 8(1) o Atodlen 1 apelio ar unrhyw sail i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn y dynodiad.

(2) Wrth benderfynu apêl o dan baragraff (1), rhaid i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf naill ai gadarnhau neu ddiddymu'r dynodiad.

Hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ar gais i addasu, tynnu ymaith neu amnewid

4.—(1) Caiff perchennog, y rhoddir iddo hysbysiad o benderfyniad cydsynio, apelio ar unrhyw sail i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn y penderfyniad.

(2) At ddibenion paragraff (1), os nad yw awdurdod cyfrifol, ar ddiwedd diwrnod olaf y cyfnod hysbysu, wedi rhoi i berchennog hysbysiad o benderfyniad cydsynio a wnaed gan yr awdurdod, rhagdybir bod yr awdurdod cyfrifol wedi rhoi i'r perchennog, ar y diwrnod hwnnw, hysbysiad, sy'n gwrthod cydsynio.

(3) Wrth benderfynu apêl o dan baragraff (1), rhaid i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf naill ai gadarnhau'r penderfyniad cydsynio neu ei amnewid.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfnod hysbysu" ("*notice period*") yw'r cyfnod o 2 fis sy'n dechrau gyda'r diwrnod sy'n dilyn y diwrnod pan fo awdurdod cyfrifol yn cael cais am gydsyniad o dan baragraff 6 o Atodlen 1.

Hawl i apelio yn erbyn gwrthodiad i ddiddymu dynodiad

5.—(1) Caiff perchennog, y rhoddir iddo hysbysiad bod cais wedi ei wrthod, apelio ar unrhyw sail i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn y gwrthodiad i ddiddymu'r dynodiad.

(2) At ddibenion paragraff (1), os nad yw awdurdod cyfrifol, ar ddiwedd diwrnod olaf y cyfnod hysbysu, wedi rhoi i'r perchennog hysbysiad o benderfyniad a wnaed gan yr awdurdod ynglŷn â chais, rhagdybir bod yr awdurdod cyfrifol wedi rhoi i'r perchennog, ar y diwrnod hwnnw, hysbysiad sy'n gwrthod y cais.

(3) Wrth benderfynu apêl o dan baragraff (1), rhaid i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf naill ai gadarnhau'r gwrthodiad neu ddiddymu'r dynodiad.

(4) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cais" ("*application*") yw cais o dan baragraff 9 o Atodlen 1; ac

ystyr "cyfnod hysbysu" ("*notice period*") yw'r cyfnod o 2 fis sy'n dechrau gyda'r diwrnod sy'n dilyn y diwrnod pan fo awdurdod cyfrifol yn cael cais.

Hawl i apelio yn erbyn hysbysiad gorfodi

6.—(1) Caiff person, y rhoddir iddo hysbysiad gorfodi, apelio ar unrhyw sail i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn yr hysbysiad.

(2) Wrth benderfynu apêl o dan baragraff (1), rhaid i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf naill ai—

(a) cadarnhau'r hysbysiad gorfodi; neu

(b) penderfynu bod yr hysbysiad yn peidio â chael effaith.

(**3**) *Gweler* paragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p.29) ar gyfer ystyr "perchennog".